

Erthygl: Gweithwyr Ifanc

Crynodeb

Mae 'Gweithwyr Ifanc' yn trafod y mathau o reolau sy'n effeithio arnoch os ydych dan 16 mlwydd oed ac yn dymuno gweithio'n rhan amser. Mae'r rhain yn cynnwys y mathau o waith y gallwch ei wneud, ble a phryd.

Ystyried chwilio am swydd?

Os ydych dan 16 oed ac yn dymuno ennill ychydig o arian ychwanegol, mae angen i chi wybod am y rheolau sy'n rheoli pethau megis:

- y math o waith y gallwch ei wneud
- am faint y gallwch weithio
- iechyd a diogelwch yn y gwaith

Nid yw'r erthygl hon yn trafod profiad gwaith a drefnir trwy law eich ysgol.

A ydych chi'n ddigon hen?

Yn gyffredinol, mae cyflogi plentyn dan 13 oed yn anghyfreithlon. Mae rhai eithriadau, er enghraifft, perfformiadau actio lle bydd angen plentyn o oedran penodol i actio rhan.

Os ydych yn 13-16 mlwydd oed, gallwch weithio'n rhan amser. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ynghylch y math o waith y gallwch ei wneud a phryd gallwch weithio. Ar y cyfan, bydd y gyfraith yn caniatáu i chi weithio os na fydd hynny yn peryglu eich addysg, eich iechyd a'ch datblygiad.

Pa fath o waith allwch chi wneud?

Mae hyn yn dibynnu ar eich oedran. Os ydych yn 13 mlwydd oed, gallwch wneud y gwaith y mae'r awdurdod lleol yn ei ystyried yn addas yn unig. Fel arfer, bydd hyn yn cynnwys:

- gwaith amaethyddol ysgafn
- dosbarthu papurau newydd
- gweithio mewn siop, caffi, salon trin gwallt neu swyddfa
- gwaith domestig mewn gwesty
- gwaith mewn stablau marchogaeth
- golchi ceir â llaw mewn lleoliad preswyl preifat.

Os ydych yn 14 mlwydd oed neu'n hyn, gallwch wneud gwaith ysgafn sydd heb ei wahardd gan yr awdurdod lleol yn unig. Mae'r gwaith **na** chaniateir i chi ei wneud fel arfer yn cynnwys:

- Gweithio mewn clwb nos, sinema, neu fusnes sydd â pheiriannau gamblo.
- Gweithio mewn cegin fasnachol.
- Dosbarthu llefrith neu danwydd.
- Gwerthu neu ddosbarthu alcohol.
- Casglu sbwriel.
- Unrhyw waith ble byddech yn dod i gysylltiad â 'deunyddiau sy'n addas i oedolion'.
- Gwerthu pethau dros y ffôn.
- Gweithio ar uchder peryglus (dros dair medr uwchlaw'r llawr).
- Dod i gysylltiad â chemegau peryglus.
- Gwerthu, canfasio (megis perswadio pobl i bleidleisio dros blaid benodol) neu gasglu arian o ddrws i ddrws.
- Gweithio mewn lladd-dy neu baratoi cig i'w werthu.

Mae rheolau ar wahân yn ymwneud â phlant yn cymryd rhan mewn perfformiadau cyhoeddus. Mae'r rhain yn amrywio yn ôl eich oedran, ond maent yn cwmpasu pethau megis:

- Y nifer mwyaf o berfformiadau y gallwch gymryd rhan ynddynt mewn wythnos.
- Yr adegau cynharaf a hwyraf y gallwch berfformio.

- Am faint o amser y gallwch berfformio, a'r egwyliau y mae gennych hawl eich cael.
- Eich lles, megis eich addysg a ble byddech yn aros pe baech yn cymryd rhan mewn perfformiad am gyfnod sylweddol oddi cartref.

Yn Lloegr, nid oes isafswm oedran i'r sawl sy'n gwarchod plant. Fodd bynnag, mae llawer o sefydliadau yn argymhell y dylech fod yn 16 mlwydd oed o leiaf.

Pryd allwch chi weithio?

Bydd hyn yn dibynnu ar y diwrnod – diwrnod ysgol, penwythnos neu un o ddiwrnodau'r gwyliau, Mae eich oedran yn bwysig hefyd.

- ni allwch weithio cyn 7 yb neu ar ôl 7 yb ar unrhyw ddiwrnod
- ar ddiwrnod ysgol, ni allwch weithio cyn i'r diwrnod ysgol ddod i ben (er bod rhai is-ddeddfau yn caniatáu i chi weithio am hyd at un awr cyn i'r ysgol ddechrau)
- ar ddiwrnod ysgol, gallwch wneud hyd at ddwy awr o waith cyflogedig
- os ydych dan 15, gallwch wneud hyd at bum awr o waith cyflogedig ar ddydd Sadwrn
- os ydych dro 15, gallwch wneud hyd at wyth awr o waith cyflogedig ar ddydd Sadwrn
- ar ddydd Sul, gallwch wneud dwy awr o waith cyflogedig yn unig, beth bynnag yw eich oedran (hyd at 16 oed)
- os ydych dan 15, gallwch wneud hyd at bum awr o waith y diwrnod yn ystod gwyliau'r ysgol, hyd at gyfanswm o 25 awr yr wythnos
- os ydych dros 15, gallwch weithio hyd at wyth awr y dydd yn y gwyliau, hyd at 35 awr yr wythnos

Ni ddylech weithio am fwy na phedair awr heb gael egwyl o un awr o leiaf. Dylech hefyd gael cyfnod o bythefnos (dilynol) pan na ddylech fod yn gweithio, yn ystod gwyliau'r ysgol.

Eich iechyd a'ch diogelwch

Lle bynnag rydych chi'n gweithio, mae'n rhaid i'ch cyflogwr gynnal archwiliadau rheolaidd i wneud yn siwr nad oes risg i'ch iechyd a'ch diogelwch oherwydd pethau fel:

- cynllun y gweithle
- gweithio gyda chemegau peryglus
- defnyddio peiriannau ac offer wrth eich gwaith

Mae'n rhaid iddo roi hyfforddiant iechyd a diogelwch i chi hefyd.

Trwyddedi gwaith

Os oes gennych swydd rhan amser, rhaid i'ch cyflogwr eich cofrestru â'r awdurdod lleol o fewn wythnos ar ôl eich cyflogi. Bydd angen i'ch cyflogwr lenwi'r ffurflen, ac yna, bydd angen i un o'ch rheini neu ofalwr ei llofnodi. Ni ddylech chi lenwi unrhyw ran ohoni.

Yna, bydd eich awdurdod lleol yn sicrhau fod telerau'r swydd yn cyflawni'r holl ddeddfau a rheoliadau ac nad oes unrhyw berygl i'ch iechyd, eich diogelwch na'ch lles. Ar ôl iddynt gael eu bodloni ynghylch hynny, byddant yn rhoi trwydded waith i chi.

Pe bai eich awdurdod lleol yn credu ar unrhyw adeg fod eich cyflogwr yn torri'r gyfraith, byddai'n rhaid i'r cwmni dalu dirwy, ac mae'n debyg y byddech yn cael eich atal rhag gweithio yno.

Os ydych yn credu fod natur eich swydd yn peryglu eich iechyd a'ch diogelwch, hysbyswch un o'ch rhieni neu oedolyn arall a all gysylltu â'r awdurdod lleol. Yna, gall yr awdurdod wneud ymchwiliad.

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **Young Workers**
Publisher: Royal Society for the Prevention of Accidents (RoSPA)
Gwefan www.youngworker.co.uk
- **Child Employment - Guide**

UK government services and information
Gwefan www.gov.uk/child-employment